

Adnabod Ardudwy – Partneriaethau Cymunedol

Knowing Ardudwy - Community Partnerships



De: Llwyn-du: pan astudiwyd blwyddgylchau pren y prif dŷ, cafwyd mai yn haf 1581 y cwympwyd y coed y daeth y pren ohonynt, ac yn achos y tŷ agweddi, yng ngaeaf 1592/3.

Right: Llwyn-du: tree-dating found the timbers of the principal house to have a felling date of summer 1581, the dower-house winter 1592/3.



Prosiect a noddir gan Gymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd yw Adnabod Ardudwy ac fe'i seilir ar ymchwil Dr Rhian Parry i arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol enwau ffermydd a chaeau yn Ardudwy. Fe'i hariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a nod y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth o dreftadaeth archaeolegol, hanesyddol a diwylliannol gyfoethog y fro.

Knowing Ardudwy is a project sponsored by the Merioneth Historical and Record Society and is based on research by Dr Rhian Parry into the cultural and historical significance of farm and field names in Ardudwy. Funded by the Heritage Lottery Fund, the aim of the project is to raise awareness of the rich archaeological, historical and cultural heritage of the area.



Hellodd y prosiect un o'i bartneriaid, y Comisiwn Brenhinol, i ddyddio'r pren yn Llwyn-du, Llanaber. Dangosodd y dyddiad mai'r gŵr a gododd y tŷ oedd Robert Edwards (bu f. 1616), ynad heddwch dros Feirionnydd.

The project supported one of its partners, the Royal Commission, to tree-ring date Llwyn-du, Llanaber. The tree-ring date establishes the identity of the builder of the house as Robert Edwards (d.1616), clerk of the peace for Merioneth.




DI2009_0441 NPRN 28538



DI2009_0440 NPRN 28538

Llwyn-du a'r tŷ agweddi (de). Dangosir trychiad hir ohono isod.

Llwyn-du with dower-house (r), showing long section below.



Adnabod Ardudwy – Ailddarganfod Llwybrau Hynafol

Knowing Ardudwy - Rediscovering Ancient Tracks



Algyrhyrchwyd gyda chaniatâd caredig Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Rhian Parry. Reproduced by kind permission of the National Library of Wales - Rhian Parry.

Caer bentir fach o'r Oes Haearn yw Byrlysg, a saif ym mhen pellaf cwm bach lai na dwy filltir o'r arfordir. Gerllaw, mae hen ffordd y porthmyn yn arwain drwy fuarth fferm i'r prif lwybr a ddefnyddid gan deithwyr rhwng Harlech a'r Bont-ddu ac aber afon Mawddach tan ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Byrlysg is a small Iron Age promontory fort on high land at the far end of a small valley less than two miles from the coast. A well-marked drovers road leads through the nearby farmyard to the main track used by early travellers between Harlech and Bontddu and the Mawddach estuary until the early twentieth century.

Uchod, chwith: Y Gaer, Byrlysg, CBHC Mai 2005.

Top left: Y Gaer, Byrlysg, RCAHMW May 2005.

Lluniad o Fyrlysg Bach gan Elfed Lewis, Tal-y-bont.

Drawing of Byrlysg Bach by Elfed Lewis, Talybont.

Enwir y Gaer ar fap degwm 1840. / Y Gaer (fort) is named on the 1840 tithe map.



Yr oedd taith dywys i Foel y Glo, a drefnwyd gan Adnabod Ardudwy, yn gyfle i gerdded i fyny'r llwybr o'r Oes Efydd sy'n cysylltu Mochras a Llanbedr â Thrawsfynydd a thu hwnt. Bu'n gyfle hefyd i ystyried enwau rhai o'r caeau gerllaw a gofnodwyd yn rhestrïr degwm ac i astudio patrymau caeau ac adfeilion lleol.

A guided walk to Moel y Glo, organised by Adnabod Ardudwy, offered the opportunity to walk up the Bronze Age trackway connecting Mochras, Llanbedr, with Trawsfynydd and beyond. It also gave an opportunity to consider some nearby field names recorded in the tithe schedules and to study local field patterns and ruins.



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**Royal Commission on the Ancient and
Historical Monuments of Wales**

Plas Crug, Aberystwyth, Cymru/Wales, SY23 1NJ

Ffôn / Telephone: 01970 621200

Ffacs / Fax: 01970 627701

e-bost: chcc.cymru@cbhc.gov.uk

e-mail: nmrw.wales@rcahmw.gov.uk

Gwefan: www.cbhc.gov.uk

Website: www.rcahmw.gov.uk

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

